

# Public Document Pack



Neuadd y Sir  
Y Rhadyr  
Brynbuga  
NP15 1GA

Dydd Mercher, 18 Ionawr 2023

## Hysbysiad a Gyfarfod :

### Pwyllgor Craffu Pobl

Dydd Iau, 26ain Ionawr, 2023 at 10.00 am,  
Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga / Cyfarfod o Bell

Nodwch y cynhelir rhag gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod ar gyfer aelodau'r pwyllgor

## AGENDA

Rhif yr Eitem	Eitem	Tudalen nau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Fforwm Agored i'r Cyhoedd  <b>Canllawiau ~ Fforwm Agored Cyhoeddus y Pwyllgor Dethol</b>  Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Dethol yn cael eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen gyfarfod <a href="#">gwefan</a> Cyngor Sir Fynwy  Os hoffech rannu eich barn ar unrhyw gynigion sy'n cael eu trafod gan Bwyllgorau Dethol, gallwch gyflwyno eich sylwadau <a href="#">drwy ddefnyddio'r ffurflen hon</a>  <ul style="list-style-type: none"><li>• Rhannwch eich barn drwy lanlwytho ffeil fideo neu sain (uchafswm o 4 munud); neu</li><li>• Cyflwynwch sylwadau ysgrifenedig (drwy Microsoft Word, uchafswm o 500 gair)</li></ul> Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer <a href="#">cyfrif Fy Sir Fynwy</a> er mwyn cyflwyno'r ymateb neu ddefnyddio eich manylion mewngofnodi os ydych wedi cofrestru o'r blaen.	

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Os bydd y sylwadau a dderbynnir yn fwy na 30 munud, bydd detholiad o'r rhain, yn seiliedig ar thema, yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i gynghorwyr cyn y cyfarfod.

Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd i siarad dan y Fforwm Agored i'r Cyhoedd, bydd angen i chi roi tri diwrnod o hysbysiad i ni drwy gysylltu â [Scrutiny@monmouthshire.gov.uk](mailto:Scrutiny@monmouthshire.gov.uk). Y cadeirydd sy'n penderfynu faint o amser a roddir i bob aelod o'r cyhoedd i siarad, ond i'n galluogi i roi cyfle i nifer o siaradwyr, gofynnwn nad yw cyfraniadau yn hirach na 3 munud.

Os hoffech awgrymu pynciau i un o'n Pwyllgorau Dethol graffu arnynt yn y dyfodol, gwnewch hynny drwy e-bostio [Scrutiny@monmouthshire.gov.uk](mailto:Scrutiny@monmouthshire.gov.uk)

**4. Craffu ar y Gyllideb: Craffu ar gynigion y gyllideb ar gyfer 2023/24. Cyflwyniad wedi'i deilwra i graffu ar y meysydd a ddaw o fewn y cylch gorchwyl y bydd y Pwyllgor Craffu Pobl yn ei ddilyn.**

Defnyddiwch y ddolen hon i weld y papurau ar gyfer yr eitem hon – ar gael fel rhan o agenda Cabinet 18 Ionawr 2023.

<https://democracy.monmouthshire.gov.uk/documents/s33987/20230118%20Cabinet%20-%20Draft%202023-24%20Revenue%20Capital%20Budget%20for%20consultation%20-%20Covering%20report%20Final%20v2.pdf>

**5. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 28 Chwefror 2023 am 10.00am.**

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL  
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL A GANLYN:

County Councillor Rachel Buckler, Devauden;, Welsh Conservative Party  
County Councillor John Crook, Magor East with Undy;, Welsh Labour/Llafur Cymru  
County Councillor Christopher Edwards, St. Kingsmark;, Welsh Conservative Party  
County Councillor David Jones, Crucorney;, Independent Group  
County Councillor Jayne McKenna, Mitchel Troy and Trellech United;, Welsh Conservative Party  
County Councillor Maureen Powell, Pen Y Fal;, Welsh Conservative Party  
County Councillor Sue Riley, Bulwark and Thornwell;, Welsh Labour/Llafur Cymru  
County Councillor Maria Stevens, Severn;, Welsh Labour/Llafur Cymru  
County Councillor Jackie Strong, Caldicot Cross;, Welsh Labour/Llafur Cymru

## Gwybodaeth I'r Cyhoedd

### Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democraidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

### Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk) neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg** Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

### Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni

#### Neb yn cael ei adael ar ôl

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

#### Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

#### Ein sir yn ffynnu

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

### Ein blaenoriaethau

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

### Ein gwerthoedd

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.
- **Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

## Canllaw Cwestiynau Craffu Sir Fynwy

### Rôl y Cyn-gyfarfod

1. Pam mae'r Pwyllgor yn craffu ar hyn? (cefndir, materion allweddol)
2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniad mae'r Aelodau am ei gyflawni?
3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os nad oes, pwy allai ddarparu hyn?
  - Cytuno ar y drefn holi a pha Aelodau fydd yn arwain
  - Cytuno ar gwestiynau i swyddogion a chwestiynau i Aelod y Cabinet

### Cwestiynau'r Cyfarfod

Craffu ar Berfformiad

1. Sut mae perfformiad yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol? Ydy e'n well/yn waeth? Pam?
2. Sut mae perfformiad yn cymharu â chynghorau eraill/darparwyr gwasanaethau eraill? Ydy e'n well/yn waeth? Pam?
3. Sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau gosodedig? Ydy e'n well/yn waeth? Pam?
4. Sut cafodd targedau perfformiad eu gosod? Ydyn nhw'n ddigon heriol/realistig?
5. Sut mae defnyddwyr gwasanaethau/y cyhoedd/partneriaid yn gweld perfformiad y gwasanaeth?
6. A fu unrhyw awdid ac archwiliadau diweddar? Beth oedd y canfyddiadau?
7. Sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at wireddu amcanion corfforaethol?
8. A yw gwelliant/dirywiad mewn perfformiad yn gysylltiedig i gynnydd/ostyngiad mewn adnodd?  
Pa gapasiti sydd yna i wella?

Craffu ar Bolisi

1. Ar bwy mae'r polisi yn effeithio ~ yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol? Pwy fydd yn elwa fwyaf/leiaf?
2. Beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth /rhanddeiliaid? Pa ymgynghoriad gafodd ei gyflawni? A wnaeth y broses ymgynghori gydymffurfio ag Egwyddorion Gunning? A yw rhanddeiliaid yn credu y bydd yn sicrhau'r canlyniad a ddymunir?
3. Beth yw barn y gymuned gyfan – safbwynt y 'trethdalwr'?
4. Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â'r rhanddeiliaid? A oedd y broses yn galluogi pawb â chyfran i ddweud eu dweud?
5. Pa ymarfer ac opsiynau sydd wedi eu hystyried wrth ddatblygu/adolygu'r polisi hwn? Pa dystiolaeth sydd i hysbysu beth sy'n gweithio? A yw'r polisi yn ymwneud â maes lle mae diffyg ymchwil cyhoeddedig neu dystiolaeth arall?
6. A yw'r polisi'n ymwneud â maes lle ceir anhydraddoldebau hysbys?
7. A yw'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol, fel y'u diffinnir yn ein cynllun corfforaethol? A yw'n cadw at ein Safonau Iaith Gymraeg?
8. A gafodd yr holl ddatblygu cynaliadwy, y goblygiadau cydraddoldeb a diogelu perthnasol eu hystyried?

Er enghraifft, beth yw'r gweithdrefnau sydd angen bod ar waith i amddiffyn plant?

9. Faint fydd y gost hon i'w gweithredu a pha ffynhonnell ariannu sydd wedi'i nodi?

10. Sut fydd perfformiad y polisi yn cael ei weithredu a'r effaith yn cael ei gwerthuso?

## Cwestiynau Cyffredinol:

### Grymuso Cymunedau

- Sut ydym ni'n cynnwys cymunedau lleol a'u grymuso i ddylunio a darparu gwasanaethau i gyd-fynd ag angen lleol?
- A ydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd gyda chymunedau am flaenoriaethau'r gwasanaeth a pha lefel o wasanaeth y gall y cyngor fforddio ei ddarparu yn y dyfodol?
- A yw'r gwasanaeth yn gweithio gyda dinasyddion i egluro rôl gwahanol bartneriaid wrth ddarparu gwasanaeth a rheoli disgwyliadau?
- A oes fframwaith a phroses gymesur ar waith ar gyfer asesu perfformiad ar y cyd, gan gynnwys o safbwynt dinesydd, ac a oes gennych chi drefniadau atebolrwydd i gefnogi hyn?
- A oes Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gynnal? Os felly a all yr Arweinydd a'r Cabinet /Uwch Swyddogion roi copïau i'r Aelodau ac eglurhad manwl o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynigion hyn?
- A all yr Arweinydd a'r Cabinet/Uwch Swyddogion sicrhau aelodau bod y cynigion hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol? A yw'r cynigion yn cydymffurfio â Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod Lleol?

### Galwadau'r Gwasanaeth

- Sut fydd newid polisi a deddfwriaeth yn effeithio ar y ffordd mae'r cyngor yn gweithredu?
- A ydym ni wedi ystyried demograffeg ein cyngor a sut bydd hyn yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau a chyllid yn y dyfodol?
- A ydych chi wedi adnabod ac ystyried y tueddiadau tymor hir a allai effeithio ar eich maes gwasanaeth, pa effaith allai'r tueddiadau hyn ei chael ar eich gwasanaeth/allai eich gwasanaeth ei gael ar y tueddiadau hyn, a beth sy'n cael ei wneud mewn ymateb?

### Cynllunio Ariannol

- A oes gennym ni gynlluniau ariannol canolig a hirdymor cadarn yn eu lle?
- A ydym ni'n cysylltu cyllidebau â chynlluniau a chanlyniadau ac adrodd yn effeithiol ar y rhain?

### Gwneud arbedion a chynhyrchu incwm

- A oes gennym ni'r strwythurau cywir ar waith i sicrhau bod ein dulliau effeithlonrwydd, gwelliant a thrawsnewid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r arbedion mwyaf posibl?

- Sut ydym ni'n gwneud y mwyaf o incwm? A ydym ni wedi cymharu polisiau eraill y cyngor i sicrhau'r incwm mwyaf posibl ac wedi ystyried yn llawn y goblygiadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth?

- A oes gennym ni gynllun gweithlu sy'n ystyried capasiti, costau, a sgiliau'r gweithlu gwirioneddol yn erbyn y gweithlu a ddymunir?

Cwestiynau i'w gofyn o fewn blwyddyn i'r penderfyniad:

- A gafodd canlyniadau arfaethedig y cynnig eu cyflawni neu a oedd canlyniadau eraill?
- A oedd yr effeithiau wedi'u cyfyngu i'r grŵp yr oeddech chi ar y dechrau yn meddwl fyddai wedi cael ei effeithio h.y. pobl hŷn, neu a gafodd eraill eu heffeithio e.e. pobl ag anabledau, rhieni â phlant ifanc?
- A yw'r penderfyniad yn dal i fod y penderfyniad cywir neu a oes angen gwneud addasiadau?



## Cwestiynau i'r Pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod ...

A oes gennym ni'r wybodaeth angenrheidiol i ffurfio casgliadau/i wneud argymhellion i'r pwyllgor gwaith, cyngor, partneriaid eraill? Os nad oes, a oes angen i ni:

- (i) Ymchwilio i'r mater yn fwy manwl?
- (ii) Gael rhagor o wybodaeth gan dystion eraill - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, arbenigwr annibynnol, aelodau o'r gymuned, defnyddwyr gwasanaeth, cyrff rheoleiddio...

Cytuno ar gamau pellach sydd i'w cymryd o fewn amserlen/adroddiad monitro yn y dyfodol.





